# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 15 Chwefror 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
14 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Moddion Ataliol

**C6 Peter Black:** A yw cynllun cenedlaethol yr NHS yn darparu ar gyfer hyrwyddo moddion ataliol yng Nghymru? (OAQ9658)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ydyw. Mae camau i atal salwch a iechyd gwael ac i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd yn elfennau craidd yn y cynllun. Bydd y cynllun yn cryfhau ymhellach rôl yr NHS o ran atal iechyd gwael a chymryd camau cadarnhaol i wella iechyd a lles pobl.

### Y Model 'Economi Iechyd'

**C7 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar gysyniad y model 'economi iechyd' a geir yn y ddogfen 'Mynediad a Rhagoriaeth: Gwasanaethau Iechyd Llym yng Nghymru'? (OAQ9664)

**Jane Hutt:** Mae'r cysyniad o economi iechyd yn cydnabod y berthynas naturiol sydd yn bodoli rhwng y gwahanol wasanaethau ysbyty mewn rhanbarth, gan adlewyrchu arferion clinigol mewn bodolaeth a llif cleifion hysbys yn hytrach na ffiniau cyfredol yr awdurdodau iechyd neu ddalgylchoedd tybiannol yr ysbytai mawr. Cynigiodd 'Mynediad a Rhagoriaeth', adroddiad y Grŵp Datblygu Gwasanaethau Aciwt, y dylid rhoi lle canolog i'r cysyniad o economïau iechyd wrth gynllunio gwasanaethau rhanbarthol. Rhai o fanteision hynny yw sicrhau sylfaen boblogaeth ddigon eang i ganiatáu darparu amrediad cynhwysfawr o wasanaethau. Ailgadarnhaodd cynllun yr NHS, 'Gwella Iechyd yng Nghymru', y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn adeiladu ar sail y cysyniad o economi iechyd ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu prosesau cynllunio newydd er mwyn paratoi cynlluniau gwasanaeth a buddsoddi manwl ar lefel ranbarthol.

### Canllawiau ar Ddarparu Beta Interferon

**C8 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar yr effaith a deimlir yng Nghymru o ganlyniad i'r oedi dros gyfnod y Nadolig gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol cyn cyhoeddi canllawiau ar ddarparu beta interferon? (OAQ9673)

**Jane Hutt:** Mae'r holl awdurdodau iechyd yng Nghymru'n cyflenwi'r cyffur beta interferon yn unol â chanllawiau'r Pwyllgor Ymgynghorol Meddygol Sefydlog ar gyfer cleifion a chanddynt y ffurf ailwaelu ysbeidiol ar y salwch. Mae cyflenwi'r cyffur o dan yr NHS ar gyfer ffurfiau eraill ar sglerosis ymledol yn fater i'w benderfynu'n lleol o hyd.

### Darparu Ail Brescriptiwn

**C9 Jocelyn Davies:** A ydyw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau gyda'r proffesiwn meddygol ynghylch darparu ail brescriptiwn? (OAQ9657)

**Jane Hutt:** Mae darparu ail bresgriptiwn ymysg y materion a ystyrir ar hyn o bryd gan y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae adroddiad y grŵp i'w ystyried gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Mawrth. Wedi i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad, a'r argymhellion sydd ynddo mewn perthynas â darparu ailbresgripsiwn, byddaf yn ystyried pa gamau pellach a all fod yn angenrheidiol.

### Cyllid ar gyfer Cyfleusterau Hosbis

**C10 Delyth Evans:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau cyllid ar gyfer cyfleusterau hosbis yng Nghymru? (OAQ9681)

**Jane Hutt:** Mae ariannu gwasanaethau gofal lliniarol, gan gynnwys cyfleusterau hosbis, yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau iechyd ers 1995 a rhaid iddynt ddarparu gwasanaethau priodol ar sail anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol. Yr oedd cyfarwyddyd y Swyddfa Gymreig i'r awdurdodau iechyd yn awgrymu y dylai pawb yng Nghymru gael mynediad i wasanaethau gofal lliniarol o ansawdd da ac y dylai'r awdurdodau iechyd weithio gydag ymddiriedolaethau'r NHS a'r mudiad hosbis gwirfoddol er mwyn sicrhau bod yr anghenion wedi eu diwallu. Yn y pen draw, mater i'r awdurdodau iechyd yw penderfynu patrwm y gwasanaethau, gan gofio y gellir darparu gofal yn y cartref, mewn ysbyty neu mewn hosbis.

Gofal lliniarol oedd un o'r mentrau arfaethedig a gyflwynwyd mewn papur ymgynghorol cyhoeddus sydd yn ceisio barn ynghylch sut y dylai'r gronfa cyfleoedd newydd wario cyllid ychwanegol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Ystyrir y sylwadau a dderbynnir o ganlyniad i'r ymgynghoriad wrth benderfynu sut y dylid cynllunio a chyflawni'r fenter hon.

Bu'r swyddogion yn gweithio gyda Chymdeithas Unedau Hosbis a Gofal Lliniarol Arbenigol Cymru i gynhyrchu strategaeth gofal lliniarol i Gymru ac mae adolygiad gan Bwyllgor Meddygol Cymru o wasanaethau poen a gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru yn digwydd hefyd. Bydd yr adolygiad yn arwain at gynhyrchu adroddiad ar y ddarpariaeth cyfredol o wasanaethau, yn adolygu'r safonau y dylai'r NHS eu cyrraedd ac yn cynhyrchu rhestr o argymhellion ar gyfer datblygiadau yn y gwasanaeth. Byddaf yn amlinellu canlyniad yr adolygiad yn y Cyfarfod Llawn yn Ebrill pan fyddwn yn trafod poen a gofal lliniarol.

### Targedau i ostwng Rhestrau Aros

**C11 Nick Bourne:** A all y Gweinidog roi adroddiad ar hynt ei hymdrechion i gwrdd â'i thargedau i ostwng rhestrau aros yng Nghymru? (OAQ9649)

**Jane Hutt:** Cytunwyd ar dargedau gyda'r awdurdodau iechyd yn unigol ym Mai a dyrannwyd cyfran o'r £40 miliwn i bob un ohonynt ar gyfer amseroedd aros a phwysau'r gaeaf. Ymgymerodd yr awdurdodau iechyd â'r cyfrifoldeb dros reoli'r ddarpariaeth yn eu hardal, gan gydlynu'r gwaith a defnyddio'r adnoddau'n briodol.

Mae materion fel llwyddiant a chyflymder wrth recriwtio staff, prynu offer a sicrhau gallu ychwanegol, wedi effeithio ar berfformiad. Mae cynnydd mewn pwysau brys yn effeithio hefyd ar lefelau gweithgaredd dewisol.

Trefnwyd cyfarfodydd a byddant yn digwydd cyn hir er mwyn trafod â'r awdurdodau iechyd eu cynnydd tuag at gyrraedd y targedau oddi mewn i'r amser a gytunwyd.

### Cynllun NHS Cymru

**C12 Christine Gwyther:** Sut y mae cynllun NHS Cymru yn cynnal cydbwysedd rhwng hybu iechyd ac atal salwch? (OAQ9620) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymchwil i Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**C13 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ei blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i iechyd a gofal cymdeithasol? (OAQ9667) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diddymu'r Awdurdodau Iechyd yng Nghymru**

**C14 Peter Black:** Beth yw'r amserlen ar gyfer diddymu'r awdurdodau iechyd yng Nghymru? (OAQ9645)

**Jane Hutt:** Diddymir yr awdurdodau iechyd yng Nghymru erbyn Ebrill 2003 yn unol â'r agenda bolisi ar gyfer NHS Cymru a nodir yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru'.

**Rhoi Argymhelliad Rhif 61 Adroddiad Waterhouse ar Waith**

**C15 Gwenda Thomas:** Pa drefniadau monitro sydd yn barod ar gyfer sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi argymhelliad rhif 61 adroddiad Waterhouse ar waith? (OAQ9684)

**Jane Hutt:** Gall swyddogion neu aelodau etholedig ymgymryd ag ymweliadau misol statudol â chartrefi plant. Os penderfyna awdurdodau lleol y dylai aelodau etholedig ymgymryd ag ymweliadau o'r fath, mater iddynt hwy yw sicrhau bod yr aelodau etholedig yn barod i wneud ac dderbyn cyfarwyddyd priodol ar bwrpas yr ymweliadau. O Ebrill ymlaen, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu y bydd yr awdurdodau lleol yn dynodi, fel dangosydd perfformiad Plant yn Gyntaf, bod eu trefniadau ar gyfer ymweliadau statudol â phlant sydd mewn gofal preswyl ac yn derbyn gofal maeth ac ymweliadau misol â chartrefi plant yn llwyr gydymffurfio â'r rheoliadau.

**Rhestrau Aros yng Ngogledd Cymru**

**C16 Peter Rogers:** A yw'r rhagolygon presennol yn dangos y bydd nifer y cleifion ar restrau aros yng ngogledd Cymru yn gostwng, yn unol ag ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau gostyngiad cenedlaethol o 65,000 erbyn Mawrth 2001? (OAQ9731)

**Jane Hutt:** Ym Mai dyrennais £40 miliwn ychwanegol i'r NHS i fynd i'r afael â rhestrau aros a phwysau brys a bydd £35 miliwn ar gael yn rheolaidd o 2001-02. Cytunwyd ar dargedau gydag Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ac maent wedi cytuno ar dargedau unigol gyda'i ymddiriedolaethau darparu. Gyda'i gilydd maent yn rheoli'r gweithgaredd o fis i fis.

Mae'r Cynulliad yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau yn fanwl. Bydd cyfarfod cyn hir i drafod y cynnydd.

**Gwella'r Gofal i Gleifion yn Sir Fynwy**

**C17 David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella'r gofal i gleifion yn Sir Fynwy? (OAQ9730)

**Jane Hutt:** Bydd y gofal i gleifion yn Sir Fynwy, fel yng ngweddill Cymru, yn elwa'n fawr o'r nifer o gynigion manwl yng nghynllun yr NHS, 'Gwella Iechyd yng Nghymru', a lansiwyd yn ddiweddar, ac o'r adnoddau ychwanegol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi eu darparu ar gyfer gofal iechyd.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau penodol ar gyfer Sir Fynwy neu Went:

- Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent i ddatblygu cynigion partneriaeth gyhoeddus-breifat ar gyfer prosiect Monnow Court. Byddai'r prosiect arloesol hwn yn darparu cyfleuster modern pwrpasol yn Nhrefynwy, a fydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau integredig ar draws y ffin gofal iechyd a chymdeithasol.

- Mae'r Comisiwn Gwella Iechyd yn cyflawni adolygiad rheolaeth glinigol o Awdurdod Iechyd Gwent, a fydd yn edrych ar drefniadau ar gyfer rheolaeth glinigol yn yr Awdurdod Iechyd, ar y grwpiau iechyd lleol ac ar bractisiau cyffredinol yn ardal yr Awdurdod, sydd yn cynnwys Sir Fynwy. Bydd adroddiad y Comisiwn, sydd i'w gyhoeddi yn Ebrill, yn gwneud argymhellion y bydd yr Awdurdod Iechyd yn eu defnyddio i gynhyrchu cynllun ar gyfer gwella gwasanaethau.

### 'Y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 1999-2000: Adroddiad y Prif Arolygydd'

**C18 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar 'Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 1999-2000: Adroddiad y Prif Arolygydd'? (OAQ9659) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Dyfodol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys

**C19 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys? (OAQ9685)

**Jane Hutt:** Mae 'Gwella Iechyd yng Nghymru' yn nodi'r cynllun ar gyfer datblygiad NHS Cymru yn y dyfodol. Fel rhan o hynny, bwriadaf gryfhau rôl y grwpiau iechyd lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hyn yn dileu'r angen am awdurdodau iechyd yng Nghymru. Felly, diddymir Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a'r pedwar awdurdod iechyd arall yng Nghymru erbyn Ebrill 2003. Ymgynghorir â'r cyfranogion ar fanylion gweithredu hynny.

### Gofal Lliniarol yn yr NHS yng Nghymru

**C20 Janice Gregory:** A wnaiff Y Gweinidog ddatganiad byr ar sefyllfa bresennol gofal lliniarol yn yr NHS yng Nghymru? (OAQ9646) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Oedolion sydd yn Gleifion Meddygol Brys

**C21 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y galw am welyau i oedolion sydd yn gleifion meddygol brys, sydd yn gyfrifol am fwrw'r lefel o welyau mewn defnydd mewn rhai ysbytai i dros 100 y cant? (OAQ9727)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol o'r pwysau a fu mewn llawer o ysbytai dros y mis neu ddau diwethaf, sydd yn golygu bod 5,000 o oedolion yn cael eu derbyn i ysbyty bob wythnos ar gyfartaledd ers dechrau Rhagfyr.

Am y tro cyntaf, ceir adrodd dyddiol ac wythnosol ar waith ers dechrau Rhagfyr, sydd yn galluogi'r NHS i weld ym mhle y mae'r pwysau yn y gwasanaeth, fel y gellir cymryd camau ar unwaith. Ar sail ein profiad y llynedd, rhoddais sawl menter ar waith i ddarparu cynnydd cynaliadwy mewn capasiti, ac i helpu'r NHS i baratoi at y gaeaf hwn. Yr oedd yr arolwg gwelyau diweddaraf yn dangos y byddai 139 o welyau derbyniadau brys a 29 o welyau gofal critigol ychwanegol ar gael ledled Cymru erbyn 31 Ionawr. Ymysg y mentrau eraill yr oedd:

- penodi 23 o ymgynghorwyr ychwanegol a recriwtio rhagor;
- cyllid ar gyfer 190 o leoedd hyfforddi ychwanegol ar gyfer nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd; bydd y cynnydd hwn yn parhau flwyddyn ar ôl blwyddyn fel y bydd 760 o nyrsys wedi'u hyfforddi erbyn 2004;
- lleoedd wedi'u hariannu mewn colegau ar gyfer hyd at 160 o nyrsys sydd yn ailddechrau gweithio;

- cyfarwyddyd cynllunio gaeaf manwl a ddosbarthwyd yn Awst i'r holl gyrff a phartneriaid ar sail gwaith y tasglu pwysau brys;
- Ymgyrch 'Cadwch yn Iach y Gaeaf hwn', a anelir at y rhai dros 65 oed.

**Targedau ar gyfer Rhestrau Aros**

**C22 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt ei hymdrechion i gyrraedd ei thargedau ar gyfer rhestrau aros? (OAQ9687)

**Jane Hutt:** Cytunwyd ar dargedau gyda'r awdurdodau iechyd unigol ym mis Mai a dyrannwyd i bob un ohonynt gyfran o'r £40 miliwn ar gyfer amseroedd aros a phwysau gaeaf. Ymgymerodd yr awdurdodau iechyd â'r cyfrifoldeb dros reoli'r ddarpariaeth yn eu hardaloedd, gan gydlynu'r gwaith a defnyddio'r adnoddau'n briodol.

Mae materion fel llwyddiant a chyflymder wrth recriwtio staff, prynu offer a sicrhau gallu ychwanegol, wedi effeithio ar berfformiad. Mae cynnydd mewn pwysau brys yn effeithio hefyd ar lefelau gweithgaredd dewisol.

Trefnwyd cyfarfodydd a byddant yn digwydd cyn hir er mwyn trafod â'r awdurdodau iechyd eu cynnydd tuag at gyrraedd y targedau oddi mewn i'r amser a gytunwyd.

**Datblygu Gwasanaethau a Ddarperir drwy Gyfrwng y Gymraeg yn yr NHS**

**C23 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu datblygu gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr NHS? (OAQ9679) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gofal Seibiant a Gofal Preswyl ar gyfer Pobl Ifanc Anabl**

**C24 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gofal seibiant a'r gofal preswyl a ddarperir i bobl ifanc anabl yng Nghymru? (OAQ9622) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Polisi Iechyd Cenedlaethol ar gyfer Cymru**

**C25 Janet Ryder:** Pa ystyriaeth a roddir i anghyfartalwch rhanbarthol wrth ddatblygu polisi iechyd cenedlaethol ar gyfer Cymru? (OAQ9671) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd**

**C26 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ddatblygiad gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerdydd? (OAQ9678) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyngor Proffesiynau Iechyd Arfaethedig y DU**

**C27 Helen Mary Jones:** A ydyw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Alan Milburn, Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd y DU, ynghylch cyngor proffesiynau iechyd arfaethedig y DU? (OAQ9669) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Trawma Niwrolegol Aciwt**

**C28 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau adfer a ddarperir ar hyn o bryd i bobl sydd wedi dioddef trawma niwrolegol aciwt? (OAQ9690) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Archwiliadau Deintyddol yn Rhad ac am Ddim**

**C29 Mick Bates:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd er mwyn cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddarparu mwy o archwiliadau deintyddol rhad ac am ddim, yn unol â'r addewid yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ9688)

**Jane Hutt:** Mae'r Gorchymyn drafft angenrheidiol yn cael ei baratoi a dylid gallu ei gyflwyno i'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth 2001.

### Nifer y Doctoriaid sydd yn cael eu Hyfforddi yng Nghymru ar Hyn o Bryd

**C30 Owen John Thomas:** Faint o ddoctoriaid sydd yn cael eu hyfforddi yng Nghymru ar hyn o bryd i gymryd lle meddygon teulu fydd yn cyrraedd oedran ymddeol yn ystod y pum mlynedd nesaf? (OAQ9650) [W]

**Jane Hutt:** Rydym wedi cynyddu'r nifer o leoedd ar y cynllun hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer meddygon teulu o 97 yn 1999 i 110 yn 2000, ac yr ydym yn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach o naw y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf, sydd yn cyfateb i gynnydd o 27 erbyn 2003. Yr ydym hefyd yn cyflwyno nifer o fesurau i wella recriwtio a chadw. Mae'r rhain yn cynnwys y cynllun cadw meddygon teulu a hyblygrwydd ariannu o fewn GPVTS.

O ganlyniad i'r ddau gynllun hwn, yr ydym wedi ymrwymo £2.074 miliwn yn ychwanegol yn 2001-02 a £1.673 miliwn yn 2002-03 i gefnogi'r datblygiadau hyn.

Bydd y penderfyniadau ar anghenion hyfforddiant yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad o'r broses bresennol o gynllunio'r gweithlu yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Adolygu Addysg Bellach yng Nghymru

**C2 Christine Gwyther:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu addysg bellach yng Nghymru? (OAQ9599) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Nid ar hyn o bryd. Mae ffurf addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru mewn cyflwr o drawsnewid ar hyn o bryd wrth inni weithredu darpariaethau'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sydd yn cynnwys sefydlu Cyngor Cenedlaethol newydd Cymru dros Addysg a Hyfforddiant.

Mae'n anochel y bydd newidiadau dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Bydd angen i'r cyngor a'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16, gan gynnwys y sector addysg bellach, adolygu prosesau, systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod eu cleientau—unigolion, cyflogwyr a'r gymuned—yn cael mynediad hawdd i ddysgu o'r ansawdd a'r maint iawn, yn y lle ac ar yr amser iawn, a chyda'r darparwr priodol. Cynamserol fyddai adolygu addysg bellach yng Nghymru hyd nes y cyflwynir y newidiadau hyn.

*Atebwyd cwestiynau 3 i 6 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cefnogaeth Ariannol i Sefydliadau Addysg Uwch (Dysgwyr wedi'u Lleoli yn y Gymuned)

**C7 Geraint Davies:** Pa gamau a gymerir gan y Gweinidog i sicrhau bod cefnogaeth ariannol ddigonol yn cael ei gynnig i sefydliadau addysg uwch sydd yn darparu gwasanaethau i ddysgwyr wedi'u lleoli yn y gymuned? (OAQ9711)

**Jane Davidson:** Mae fy llythyr diweddar at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn datgan y dylai'r cyngor ddarparu cyllid datblygu i gysylltu sefydliadau addysg uwch ag ysgolion, colegau a grwpiau

cymunedol er mwyn hybu dilyniant drwy addysg uwch a thargedu grwpiau o dan anfantais a myfyrwyr hŷn. Gofynnwyd hefyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gadw ei fformiwla gyllido o dan sylw, a'i datblygu os bydd angen, er mwyn cydnabod llwyddiant wrth recriwtio myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig neu rai sydd yn wynebu heriau penodol.

O 2000-01, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn tynnu'r mentrau cyllido blaenorol at ei gilydd er mwyn darparu cronfa ehangu mynediad o £1.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer ehangu mynediad. Nod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw bod sefydliadau yn datblygu dull strategol a chynlluniedig o ehangu mynediad i addysg uwch yng nghyd-destun eu cenadaethau, eu profiad a'u gwybodaeth am anghenion eu cymunedau. Rhyddheir cyllid ar ôl derbyn strategaethau ehangu mynediad derbyniol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Derbynnir y set gyntaf o strategaethau ddiwedd y mis hwn. Mae gan sawl sefydliad addysg uwch raglenni sylweddol yn y gymuned ac mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn disgwyl y bydd lle amlwg i'r rhain yn eu strategaethau, ac y bydd sefydliadau eraill yn achub ar y cyfle i ddatblygu rhaglenni o'r fath.

Mae sefydliadau hefyd yn derbyn cyllid drwy ddyraniadau cyllido dysgu prif ffrwd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i fyfyrwyr sydd yn astudio ar gyfer credydau, sydd yn gallu cyfrannu at gymhwyster addysg uwch.

**Hyrwyddo Dysgu Gydol Oes yn y Gweithle (Swyddogaeth yr Undebau Llafur)**

**C8 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth yw swyddogaeth yr undebau llafur o ran hyrwyddo dysgu gydol oes yn y gweithle? (OAQ9630)

**Jane Davidson:** Mae'r undebau llafur yn gwneud cyfraniad mwyfwy gwerthfawr tuag at yrru'r agenda dysgu gydol oes yn ei blaen drwy addysg a hyfforddiant yn y gweithle. Cefnogaf y bartneriaeth sydd yn tyfu rhwng cyflogwyr, gweithwyr a'u hundebau llafur er mwyn rhoi y medrau a'r wybodaeth i'r bobl sydd eu hangen er mwyn hyrwyddo eu gyrfaoedd.

Mae cyflwyno cronfa dysgu undebau Cymru yn 1999 wedi galluogi'r Cynulliad i gryfhau'r bartneriaeth hon. Yr ydym wedi cefnogi amrediad eang o brosiectau sydd gan undebau gan gynnwys prosiectau sydd yn gwella hyfforddiant cyfle cyfartal ac eraill sydd yn ategu at rôl cynrychiolwyr dysgu'r undebau.

**Mynd i'r Afael ag Ymddieithrio ymysg Pobl Ifanc sydd yn Gadael Ysgol**

**C9 Helen Mary Jones:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod strategaeth gynaliadwy ar waith yng Nghymru i fynd i'r afael ag ymddieithrio ymysg pobl ifanc sydd yn gadael ysgol? (OAQ9718)

**Jane Davidson:** Mae menter mynediad ieuenctid y Cynulliad, sydd yn ceisio ymdrin â phroblemau pobl ifanc rhwng 14 a 17 mlwydd oed a ymddieithriwyd, yn gweithredu ers tair blynedd ac o Ebrill 2001 bydd yn rhan o'r gronfa bartneriaeth plant ac ieuenctid. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi a gweithredu cynlluniau er mwyn defnyddio cyllid y fenter mynediad ieuenctid, a gofynnwyd iddynt gyflwyno strategaethau diwygiedig erbyn 15 Chwefror.

Yn ogystal â hynny, cynhwyswyd mesurau yn rhaglenni cronfa strwythurol Amcan 1 ac Amcan 3 fel y gellir rhoi cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc a ymddieithriwyd ac mae ceisiadau am gymorth o dan y ddwy raglen wedi eu cymeradwyo eisoes.

Yn fwy cyffredinol, mae hybu gwasanaethau cymorth i'r holl bobl ifanc yng Nghymru, a ragwelir yn yr adroddiad 'Ymestyn Hawliau', o gymorth wrth ymdrin â phroblemau penodol y rhai a ymddieithriwyd. Wrth dargedi gwasanaethau at grwpiau diamddiffyn penodol, mae perygl gwarthnodi'r bobl ifanc o dan sylw. Gall rhwydwaith cadarn o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc leihau hynny drwy fanteisio ar gyfleoedd i gysylltu pobl ifanc a ymddieithriwyd â gweithgareddau prif ffrwd.

**Dysgu Ieithoedd Modern Tramor**

**C10 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddysgu ieithoedd modern tramor yng Nghymru? (OAQ9698)

**Jane Davidson:** Lansiwyd strategaeth ddrafft y Cynulliad Cenedlaethol ar ieithoedd cenedlaethol ar gyfer ymgynghori gan Brif Weinidog Cymru ym mis Rhagfyr ac yr oedd yn destun i gynhadledd bellach yn Llandudno y mis diwethaf, lle y traddodais y brif araith. Daw'r ymgynghori i ben ar 16 Mawrth.

**Cyllideb Addysg Uwch 2001-04**

**C11 Elin Jones:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda chynrychiolwyr sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ynghylch y gyllideb addysg uwch arfaethedig ar gyfer 2001-04? (OAQ9721)

**Jane Davidson:** Ni chefais unrhyw drafodaethau ffurfiol â chynrychiolwyr o sefydliadau addysg uwch unigol yng Nghymru ar y cyllidebau addysg uwch ar gyfer 2001-04. Fodd bynnag, cyfarfûm â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i drafod y cyllidebau.

Yr wyf wedi codi y pryderon a fynegwyd gan sector addysg uwch Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch y cyllidebau dangosol ar gyfer 2002-03 a 2003-04 gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae Mrs Hart wedi dweud eisoes y bydd yn eu hystyried yng nghylch cyllideb y flwyddyn nesaf.

**Hyrwyddo Datblygiad Proffesiynol Athrawon**

**C12 Owen John Thomas:** Sut mae'r Gweinidog yn monitro'r broses a'r mecanweithiau cyffredinol sydd ar waith i hyrwyddo datblygiad proffesiynol athrawon yng Nghymru? (OAQ 9631)

**Jane Davidson:** Cefnogir llawer o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon yng Nghymru drwy'r grantiau ar gyfer cymorth a hyfforddiant addysg. Bob blwyddyn, mae'r awdurdodau addysg lleol yn cyflwyno cynigion i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan nodi sut y byddant yn cefnogi datblygiad proffesiynol ym meysydd gweithgaredd y rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant. Fel rhan o'u cyflwyniad, mae gofyn i'r AALlau nodi eu trefniadau ar gyfer monitro gwariant oddi mewn i'r meysydd gweithgaredd ac i ddangos sut y cyrhaeddir yr amcanion CGAH. Mae Estyn yn cynghori'r Cynulliad ar ansawdd cynigion yr AALlau. Mae fy swyddogion yn monitro perfformiad yr AALl yn erbyn y targedau ac yn penderfynu a ddefnyddiwyd y cyllid yn unol â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol.

Fel rhan o'i raglen arolygu adran 10, mae Estyn hefyd yn mynnu bod arolygwyr yn adrodd ar ganlyniadau hyfforddiant mewn swydd mewn ysgolion unigol. O bryd i'w gilydd, mae Estyn yn ymweld â digwyddiadau hyfforddi ac ysgolion yn unswydd er mwyn gwerthuso canlyniadau datblygiad proffesiynol parhaus.

**C13 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar statws y rhaglenni cymhelliant hyfforddiant i athrawon sydd ar waith yng Nghymru? (OAQ9641)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad yn rhoi grantiau cymhelliant ar gyfer chyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru o dan y Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000. Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer talu grantiau i annog ysgolion i gymryd a hyfforddi athrawon graddedig.

**Meithrin Entrepreneuriaeth yng Nghymru (Sefydliadau Addysg Uwch)**

**C14 Brian Hancock:** Pa fesurau y bydd y Gweinidog yn eu cyflwyno i annog sefydliadau addysg uwch i feithrin entrepreneuriaeth yng Nghymru? (OAQ9713)

**Jane Davidson:** Mae amryw o raglenni a gweithgareddau ymarferol i hyrwyddo entrepreneuriaeth oddi mewn sefydliadau addysg uwch eisoes wedi eu dynodi yn y cynllun gweithredu entrepreneuriaeth a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cynulliad.

Un o gamau cyntaf y panel gweithredu, sydd wedi ei ailffurfio o'r grŵp llywio'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth, fydd clustnodi'r rhaglenni a gweithgareddau hynny sydd â'r posibiliadau mwyaf o ran eu perthnasedd a'u heffaith a sicrhau y gyrrir y rhain yn eu blaen, gobeithio, yn ddi-oed.

Yn ogystal â hynny, mae'r gronfa defnyddio gwybodaeth yn ceisio cefnogi sbectrwm eang o weithgareddau creu cyfoeth nad ydynt wedi eu cynnwys eisoes, ac yn rhoi hwb i sicrhau newid mewn rhai o'r gweithgareddau presennol, a gwreiddio diwylliant o entrepreneuriaeth ledled addysg a hyfforddiant ôl-16. Caiff addysg uwch a phellach ei gwmpasu mewn un rhaglen ac annogir cydweithrediad rhwng y ddau sector. Yr ydym yn darparu cyfanswm o £34 miliwn dros y cyfnod 2000-04 o dan y gronfa hon. Mae'r gronfa defnyddio wybodaeth yn gyfrwng pwysig hefyd i roi cyllid Ewropeaidd yn ei le ar gyfer ardaloedd Amcan 1 a 3.

O dan raglen y gronfa defnyddio gwybodaeth, bydd gan bob sefydliad addysg uwch a phellach yng Nghymru ei 'bencampwr entrepreneuriaeth' ei hun—aelod staff o radd uchel y cynhelir ei gyflog gan y gronfa, a hybu menter yn unig orchwyl ganddo.

### Gwella Isadeiledd Ffisegol Ysgolion (TGCH)

**C15 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr angen i wella isadeiledd ffisegol ysgolion Cymru er mwyn darparu ar gyfer cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu? (OAQ9699)

**Jane Davidson:** Yn ddiweddar cyhoeddais fanylion y strategaeth TGCh ar gyfer dysgu a fydd yn darparu £16 miliwn i ymestyn mynediad i gyfleusterau TGCh ar gyfer ysgolion a dysgwyr ledled Cymru. Fel rhan o'r strategaeth hon, bydd £10 miliwn ar gael ar gyfer cyfrifiaduron a chyfleusterau rhwydweithio mewn ysgolion uwchradd ac offer TGCh ychwanegol i ysgolion cynradd. Yr ydym yn gwahodd AALlau a'u partneriaid lleol i gyflwyno cynigion ar gyfer datblygu canolfannau dysgu mewn ysgolion yn eu hardaloedd. Bydd cyllid o £0.5 miliwn ar gael hefyd ar gyfer offer TGCh i ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig. Yn ogystal â hynny, mae darparu a gosod ceblau ar gyfer TGCh fel rhan o brosiect adeiladu gwella, adnewyddu neu ailosod yn gymwys i dderbyn cymorth o dan y Fargen Newydd: Cyllid Cyfalaf Ychwanegol i Ysgolion.

### Cyfarfodydd ag Undebau'r Athrawon 2001

**C16 Janice Gregory:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnal cyfarfodydd gydag undebau'r athrawon yn 2001? (OAQ9609) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Polisi Ysgolion Gwledig yng Nghymru

**C17 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y camau a gymerwyd i ddatblygu polisi ar ysgolion gwledig yng Nghymru? (OAQ9600)

### Concordat rhwng y Cynulliad a'r Adran Addysg a Chyflogaeth

**C18 Nick Bourne:** Pryd y caiff concordat ei arwyddo rhwng y Cynulliad a'r Adran Addysg a Chyflogaeth? (OAQ9602)

**Y Gweinidog:** Mae gwaith ar y concordat bron iawn â'i gwblhau. Rhagwelaf y caiff ei arwyddo cyn hir.

### Ailhyfforddiant i rai sydd newydd gael eu gwneud yn Ddi-waith

**C19 Helen Mary Jones:** Pa fesurau sydd yn eu lle i sicrhau bod digon o gyfleoedd i ailhyfforddi ar gyfer y rhai sydd newydd gael eu gwneud yn ddi-waith yng Nghymru? (OAQ9720)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad yn rhoi pwyslais mawr ar helpu pobl ddi-waith i gael mynediad i gyfleoedd hyfforddi. Mae'r Fargen Newydd i Bobl Ifanc a rhaglen y Cynulliad i oedolion, sydd yn hyrwyddo dysgu ar sail gwaith, yn cynnig amrywiaith o gyfarwyddyd wedi ei deilwra'n unigol, profiad gwaith a hyfforddiant strwythurol i helpu pobl i wella eu medrau a sicrhau cyflogaeth gynaliadwy. Er eu bod yn cael eu hanelu fel rheol at bobl a fu'n ddi-waith am dymor hir, mae mynediad buan i'r rhaglenni hyn ar gael i grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai a effeithir gan ddiswyddiadau sylweddol. Yn ogystal â hynny, mae prentisiaethau modern a swyddi dan hyfforddiant cenedlaethol ar gael i bobl ifanc a bydd y diploma medrau modern newydd i oedolion ar gael o 1 Ebrill 2001 i rai dros 25 oed.

**Recriwtio a Chadw Staff (Addysg Bellach ac Uwch)**

**C20 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar recriwtio a chadw staff mewn addysg bellach ac uwch yng Nghymru? (OAQ9706)

**Jane Davidson:** Mae canfyddiadau cyntaf arolwg diweddar gan gorff hyfforddiant cenedlaethol addysg bellach wedi dangos anawsterau wrth recriwtio darlithwyr addysg bellach yng Nghymru ar gyfer cyrsiau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, peirianneg, y celfyddydau perfformio, gofal iechyd a chymdeithasol, mathemateg a chyfrifon. Dynodwyd nifer llai o bynciau yng Nghymru nag yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon.

Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gyrff hunanlywodraethol annibynnol sydd yn gyfrifol am eu rheolaeth eu hunain, gan gynnwys tâl ac amodau cyflogaeth eu staff. Ynghylch y sector addysg bellach, mae llythyr cylch gwaith Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant am 2001-02 yn egluro fy mod yn disgwyl i sefydliadau yn y sector addysg bellach ddilyn polisi'r sector cyhoeddus drwy ystyried tegwch a'r angen i recriwtio a chadw staff. Mae fy llythyr cylch gwaith at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rhoi sefydliadau addysg uwch o dan ddisgwyliadau tebyg.

Yr wyf newydd gyhoeddi y bydd grantiau cymhelliant recriwtio yn cael eu hymestyn i gynnwys myfyrwyr sydd yn hyfforddi i fod yn atrhawon mewn addysg bellach o Fedi 2001. Adolygir effaith y cynllun peilot hwn gan y Cynulliad yn ei dro.

**Pecynnau Ariannol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant**

**C21 Cynog Dafis:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn canllawiau gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth ynghylch cyhoeddiadau yn y dyfodol am becynnau ariannol ar gyfer addysg a hyfforddiant? (OAQ9715)

**Jane Davidson:** Pan fo'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn gyfrifol am bolisïau sydd ar waith yng Nghymru ond pan fo'r cyllid yng Nghymru'n gyfrifoldeb i'r Cynulliad—tâl ac amodau athrawon, er enghraifft—ymgynghorir â'r Cynulliad ar y polisïau hynny. Pan fo'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn gyfrifol am bolisi a chyllid ar gyfer rhaglenni, sydd yn cynnwys Cymru a Lloegr, ond pan fo gan y Cynulliad bolisi neu fuddiant arall, ceir cysylltu agos. Mewn meysydd lle y mae gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldebau cyfochrog ond cwbl ar wahân dros Loegr a Chymru yn y drefn honno, ni chaiff penderfyniadau'r Adran Addysg a Chyflogaeth eu cymhwyso i Gymru.

**Cyrsiau Amaethyddol yng Nghymru (Nifer y Myfyrwyr)**

**C22 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y myfyrwyr sydd yn dilyn cyrsiau amaethyddol yng Nghymru? (OAQ9636)

**Jane Davidson:** Mae ffigurau a ddarparwyd gan gynghorau cyllido Cymru yn eu cyhoeddiad 'Further and Higher Education Statistics in Wales: 1998/99' yn dangos bod cyfanswm o 10,330 o fyfyrwyr yn

cymryd rhan mewn cyrsiau amaethyddiaeth neu rai cysylltiedig yn y flwyddyn academaidd 1998-99, y dyddiad diweddaraf y mae gwybodaeth ar gael amdano. Yr oedd oddeutu 8,896 o fyfyrwyr yn astudio mewn sefydliadau addysg bellach a 1,434 mewn addysg uwch. Yr oedd 3,673 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser neu ryngosod a 6,657 yn dilyn cyrsiau rhan amser neu foddau presenoldeb eraill. Yr oedd niferoedd y myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd yn weddol debyg gyda 5,418 o wrywod a 4,912 o fenywod.

**Gwella Lefelau Disgyblaeth**

**C23 David Davies:** Pa fesurau y mae y Gweinidog yn eu cymryd i wella lefelau disgyblaeth yn ysgolion Cymru? (OAQ9695)

**Jane Davidson:** Rhaid i bob ysgol wladol feddu ar bolisi ymddygiad clir sydd yn nodi terfynau'r hyn sydd yn dderbyniol, yr hierarchiaeth o sancsiynau, y trefniadau ar gyfer eu cymhwyso'n deg ac yn gyson a system gysylltiedig o wobrwyon am ymddygiad da.

Nodir y gofynion hyn yng nghylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 3/99, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', ynghyd â chyngor ar amrywiaeth o gamau yn yr ysgol i ymdrin ag ymddieithrio ymysg disgyblion a herio anawsterau ymddygiadol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sefydlu rhaglenni cymorth bugeiliol mewn ysgolion, ac yn ymyriad ar ran ysgol i helpu disgyblion unigol i reoli eu hymddygiad yn well.

Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol i AALlau roi cynlluniau cymorth ymddygiad ar waith. Dylent a roi manylion am hyfforddiant, ymgynghori, cyfarwyddyd a gwasanaethau eraill sydd ar gael i ysgolion i'w helpu i reoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 19/98 yn darparu cyfarwyddyd ar lunio'r cynlluniau hyn. Er nad oes gofyn i gynlluniau cymorth ymddygiad gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad, yr ydym wedi darparu sylwadau i AALlau yn ddiweddar ar eu cynlluniau dechreuol, a dylent gyhoeddi cynlluniau diwygiedig erbyn 1 Ebrill 2001.

Mae cyllid ar gael i AALlau o dan y rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i fynd i'r afael â materion sydd yn ymwneud â phresenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion. Wrth gyflwyno ceisiadau yn y maes hwn, mae'n ofynnol i AALlau nodi trefniadau ar gyfer gweithio amlasiantaethol er mwyn sicrhau ymyriad cynnar a gwaith ataliol i leihau ynddieithrio ymysg disgyblion. Dyrannwyd £3 miliwn i'r maes hwn yn 2000-01 a dyrannwyd £9.86 miliwn i faes mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol o dan Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant am 2001-02. Mater i'r AALlau fydd penderfynu faint o hynny a gaiff ei wario ar bresenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion yn unol â'u blaenoriaethau lleol.

**Arian i Gymru (Mentrau'r Adran Addysg a Chyflogaeth)**

**C24 Jocelyn Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod Cymru'n derbyn yn y dyfodol ei chyfran deg o'r arian a gyhoeddwyd mewn mentrau gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth? (OAQ9709)

**Jane Davidson:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn ei gyllid yn unol â'r telerau a nodir yn y 'Datganiad o Bolisi Cyllido'. Yr ydym yn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau hyn.

**Cyllideb Addysg Uwch 2001-04 (Trafodaeth ag Undebau Llafur)**

**C25 Jocelyn Davies:** A yw'r Gweinidog wedi cyfarfod â chynrychiolwyr undebau llafur i drafod y gyllideb addysg uwch amodol ar gyfer 2001-04? (OAQ9710)

**Jane Davidson:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr yr undebau llafur addysg uwch ar 5 Rhagfyr 2000 i drafod cyllid addysg uwch yng Nghymru. Cyfarfûm hefyd â Chymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch ar wahân ar ddau achlysur—y diweddaraf ar 6 Chwefror—lle y trafodwyd y cyllidebau addysg uwch.

## Hyrwyddo Rhyddid Gwybodaeth mewn Addysg

**C26 Alun Cairns:** Pa gamau a gyflwynir i hyrwyddo rhyddid gwybodaeth mewn addysg? (OAQ9701)

**Y Gweinidog:** Mae nifer o gamau ar waith eisoes i hyrwyddo rhyddid gwybodaeth a mynediad i wybodaeth mewn addysg. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cyfres o lyfrynnau a chrynoadau bob blwyddyn sydd ar gael i ysgolion ac aelodau o'r cyhoedd, ac sydd yn nodi amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad a chefndir pob ysgol uwchradd yng Nghymru. Gall aelodau o'r cyhoedd dderbyn copïau o'r dogfennau hyn yn rhad ac am ddim oddi wrth eu hysgolion lleol, llyfrgelloedd, y Cynulliad Cenedlaethol a'r rhyngrwyd.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn dilyn cod ymarfer y Cynulliad ar hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth. Cyhoeddant adroddiadau a chyfrifon blynyddol, cylchlythyrau ar ôl pob cyfarfod cyngor, sydd yn cynnwys sylw helaeth i'r cyfarfod a materion eraill, a chynhaliant gyfarfodydd cyhoeddus blynyddol. Mae'r cynghorau hefyd yn cyhoeddi casgliad o ystadegau ar addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

Cyhoeddir adroddiadau arolygu annibynnol ac adroddiadau asesu ansawdd ar y ddarpariaeth addysg bellach ac uwch. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau hefyd yn darparu amrywiaeth o wybodaeth am y cyrsiau a'r gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr.

Bydd yn ofynnol i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ( ELWa) fod yn agored ac yn atebol wrth gynnal ei fusnes. Bydd copïau o'r holl ddogfennau a gyhoeddir gan y cyngor ar gael i lyfrgelloedd y Cynulliad. Bydd y cyngor yn agored hefyd i ofynion arfaethedig y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth fel y'i cymhwysir at y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo.

Mae Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol. Mae Estyn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar arolygiadau ysgolion fel mater o drefn ac amrywiaeth o adroddiadau arolwg ar safonau ac ansawdd agweddau o addysg a hyfforddiant.

Mae ACCAC yn dilyn cod ymarfer y Cynulliad ar hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth. Mae hefyd yn cyhoeddi adroddiadau a chyfrifon blynyddol, cylchlythyrau, ac amrediad eang o gyhoeddiadau ar faterion sydd oddi mewn i'w gylch gwaith.

Mae'r Cynulliad yn ymgymryd yn rheolaidd ag ymgynghori agored ar amrywiaeth o bolisïau a mentrau addysgol. Mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau lleol gyhoeddi cynlluniau strategol addysg, a gymeradwyir gan y Cynulliad, yn nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, i godi safonau addysgol. Mae'r cynlluniau'n ymdrin â chyfnod tair blynedd (1999-2002) ac fe'u diweddarir bob blwyddyn drwy gynlluniau atodol. Mae'r cynlluniau strategol addysg a'r cynlluniau atodol ar gael i'r cyhoedd wrth yr awdurdodau lleol.

Fel y nododd Prif Weinidog Cymru ar 21 Mawrth 2000, mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo gweithredu agored. Mae darparu gwybodaeth yn sicrhau bod llywodraeth yn digwydd fel partneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r rhai a lywodraethir.

## Lleihau Maint Dosbarthiadau Ysgolion Cynradd

**C27 Kirsty Williams:** Pa gamau a gymerir i leihau maint dosbarthiadau ysgolion cynradd yng Nghymru? (OAQ9640)

**Jane Davidson:** Gwneir cynnydd da. Yr oedd 30 y cant o ddisgyblion babanod mewn dosbarthiadau o fwy na 30 yn Ionawr 1998. Erbyn Medi 2000, dim ond 4,600 o ddisgyblion (4.5 y cant) a oedd mewn dosbarthiadau o fwy na 30. Disgwylir y bydd y nifer yn disgyn ymhellach pan ddaw dosbarthiadau Blwyddyn 2 o dan y cyfyngiad 30 disgybl statudol ym Medi 2001.

Ym Medi 2000, yr oedd ychydig dros 42,300 o ddisgyblion (29 y cant) mewn dosbarthiadau iau o fwy na 30 o'i gymharu â 45,800 o ddisgyblion (31 y cant) ym Medi 1999.

Maint cyfartalog y dosbarthiadau iau oedd 25.1 ym Medi 2000 o'i gymharu â 25.4 ym Medi 1999 a 27.1 yn Ionawr 1998.

**Mynd i'r afael â Bwlio Homoffobig mewn Ysgolion**

**C28 Christine Chapman:** A oes gan y Cynulliad strategaeth i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion? (OAQ9629)

**Y Gweinidog:** Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhoi penaethiaid ysgol o dan rwymedigaeth gyfreithiol i atal pob math o fwlio yn eu hysgolion. Mae Cylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 3/99, 'Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol', yn tynnu at ei gilydd amrywiaeth o gamau ymarferol y gallai ysgolion, cyrff llywodraethol ac awdurdodau addysg lleol eu mabwysiadu er mwyn cynnal ymddygiad da a disgyblaeth mewn ysgolion, gan gynnwys strategaethau gwrthfwlio. Mae hyn yn sôn yn benodol am aflonyddu hiliol a rhywiol er na sonnir yn bendant am fwlio homoffobig. Dylai strategaethau effeithiol yn erbyn bwlio fod yn rhan ganolog o bolisi ymddygiad yr ysgol a dylent gael eu rhoi ar waith gan bawb yn yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion.

Dangosodd astudiaeth gan y Sefydliad Addysg yn 1997 fod llawer o athrawon yn bryderus ynghylch statws cyfreithiol unrhyw gamau y gallent eu cymryd yn erbyn bwlio homoffobig. Gwelent adran 2A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986 (y cyfeirir ati'n aml fel 'Adran 28') fel cyfyngiad. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr astudiaeth fod ysgolion yn ymwybodol o'r anawsterau sydd yn wynebu lesbiaid a hoywon ifanc ac yn cydnabod nad yw'n dderbyniol i ysgolion anwybyddu bwlio homoffobig neu wadu ei fodolaeth yn yr un modd ag na ellir goddef unrhyw fath o fwlio.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i dderbyn y gall 'Adran 28' beri dryswch a chreu hinsawdd a allai annog gwahaniaethu ac annog ysgolion i beidio â datblygu polisïau synhwyrol i fynd i'r afael â bwlio homoffobig. Fodd bynnag, mae Tŷ'r Arglwyddi'n barnu'n wahanol ynglŷn â diddymu 'Adran 28' ac mae'r Llywodraeth wedi penderfynu o'i hanfodd peidio â dilyn y mater hwn yn y sesiwn Seneddol presennol.

Er hynny, byddwn yn ymgynghori cyn hir ar gyfarwyddyd diwygiedig i ymdrin â materion penodol sydd yn ymwneud â dysgu addysg rhyw mewn ysgolion. Mae Adran 403 o'r Ddeddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd drwy adran 148 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, yn mynnu bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi cyfarwyddyd o'r fath ac yn y pen draw bydd hyn yn cymryd lle'r hyn a ddarparwyd yng nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 45/94 'Addysg Rhyw yn yr Ysgolion'. Bydd y cyfarwyddyd yn ymdrin â gogwydd rhywiol ac yr wyf wedi gofyn am gynnwys cyfeiriad penodol yn y ddogfen ymgynghorol at sut y mae ysgolion yn ymdrin â bwlio.

Yng ngoleuni'r ymateb i'r ymarfer ymgynghori, byddaf yn gofyn i'r swyddogion ystyried pa gyngor pellach y gellid ei ddosbarthu i ysgolion i ategu'r hyn a nodir eisoes ar fwlio yng Nghylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 3/99. Byddai hyn yn ystyried hefyd y gwaith a wneir gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth i ddiweddaru pecyn gwybodaeth 1994, 'Don't Suffer in Silence: an Anti-bullying Pack for Schools' sydd ar gael i ysgolion ledled Cymru a Lloegr.

**Polisi Ysgolion Bach**

**C29 Nick Bourne:** Beth yw'r datblygiadau o ran ffurfio polisi ysgolion bach yng Nghymru? (OAQ9603)

**Jane Davidson:** Cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn blaenorol ar y mater hwn (WAQ8650). Nid oes dim pellach i'w ychwanegu ar hyn o bryd.

### Archwiliad o Gyfleusterau Chwaraeon Ysgolion Uwchradd

**C30 Brian Gibbons:** A oes archwiliad wedi'i gynnal o gyfleusterau chwaraeon ysgolion uwchradd Cymru? (OAQ9632)

**Jane Davidson:** Ni chedwir yr wybodaeth hon yn ganolog. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cynnal arolwg bob dwy flynedd, lle y mae'n anfon holiaduron at benaethiaid addysg gorfforol yn holl ysgolion uwchradd Cymru. Mae'r canlyniadau o'r arolwg diweddaraf, a wnaethpwyd fis Tachwedd diwethaf, yn cael eu casglu a dylent fod ar gael ym mis Mai. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar argaeledd cyfleusterau chwaraeon, ar y safle ac oddi arno. Mae'r tasglu addysg gorfforol/chwaraeon ysgol wedi argymell dyrannu swm sylweddol o gyllid loteri ychwanegol—i'w ddosbarthu gan y gronfa cyfleoedd newydd—i ddatblygu cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion. Gobeithiaf wneud cyhoeddiad ar hyn cyn hir.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Arogl Sigarèts

**C6 Christine Gwyther:** Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau nad yw arogl sigarèts yn treiddio i ardaloedd dim ysmygu? (OAQ9615)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Mae'r ystafell ysmygu wedi'i chyfarparu â system echdynnu mwg a hidlwyr carbon i leihau maint y mwg a ryddheir a'i arogleuon oddi mewn i'r ystafell ysmygu ac yn y mannau dim ysmygu o'i chwmpas. Ceir mynediad i'r ystafell drwy ddrws dwbl hefyd. Gwneir gwiriadau i sicrhau bod y system echdynnu'n parhau i weithredu'n briodol.